**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?**

**AEC 48**

**Ymateb gan: Estyn**
**Response from: Estyn**

---

### Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

---

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 o 1 Ebrill 2024, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae plant a phobl ifanc anabl yn wynebu llawer o rwystrau trwy gydol eu bywydau, gan gynnwys wrth gael mynediad at addysg a gofal plant. (Ffynhonnell: 'A yw Cymru'n Decach – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018' Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol). Mae'r rhwystrau hyn wedi mynd yn fwyfwy cymhleth ers pandemig COVID-19.

Rydym wedi defnyddio tystiolaeth a gasglwyd o weithgarwch arolygu a allai gynnwys cyfarfodydd gyda disgyblion a dysgwyr, cyfarfodydd rhieni, holiaduron arolygu, ymweliadau ymgysylltu a gwaith thematig a thrafodaethau â sefydliadau sy'n gysylltiedig ag addysg a gofal plant i goladu ein hymateb. Fodd bynnag, mae llawer o'r cwestiynau o fewn yr ymgynghoriad hwn yn disgyn y tu allan i'n cylch gwaith. Er enghraifft, rydym yn gwerthuso darparwyr ac awdurdodau lleol yn unigol ac yn ystyried ystod eang o ddisgyblion, nid plant a phobl ifanc ag anableddau ar wahân yn benodol.

Mae gwendidau blaenorol a oedd yn bodoli yn flaenorol o fewn y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn ogystal â gweithredu amrywiol o ran y diwygio hwn, yn golygu nad yw pob un o'r plant a'r bobl ifanc anabl yng Nghymru yn cael mynediad teg at addysg a gofal plant.

Yn ein hadroddiad thematig, ("Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol", 2023) nodom fod y rhwystrau canlynol rhag llwyddo yn y maes hwn yn cynnwys:

- diffyg gwybodaeth glir ar gael i blant, pobl ifanc a'u rhieni am y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt
- amseroedd aros hir am asesiad a chymorth arbenigol, er enghraifft wrth asesu a oes gan blentyn anabledd, a hefyd darparu cymorth arbenigol pan fydd diagnosis wedi cael ei wneud ar gyfer hyn
- diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc anabl trwy eu hiaith gyntaf
- cyfleoedd hyfforddi heb eu datblygu'n ddigonol i gynorthwyo pob un o'r rhai sy'n gweithio o fewn y systemau addysg a gofal plant i roi'r cymorth gorau i'r rhai ag anableddau, gan gynnwys y rhai sy'n niwrowahanol
- pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a darparwyr i fodloni'r baich gwaith a'r graddfeydd amser a ddaeth yn sgil diwygiadau ADY
- diffyg eglurder ynghylch trefniadau cyllido ôl-16 ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a beth mae 'angen rhesymol' am addysg yn ei olygu
- heriau wrth gludo plant a phobl ifanc i gael mynediad at ddarpariaeth addysg a gofal plant sy'n diwallu eu hanghenion

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

## A yw plant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Mae plant a phobl ifanc anabl yn wynebu llawer o rwystrau trwy gydol eu bywydau, gan gynnwys wrth gael mynediad at addysg a gofal plant.

Rydym yn cydnabod bod llawer o arfer dda sy'n digwydd bob dydd ledled Cymru. Fodd bynnag, hoffem amlygu rhai meysydd nodedig i'w gwella yn y maes pwysig hwn.

**Mynediad at bob rhan o ddarpariaeth gofal plant ac addysg, gan gynnwys sut caiff y cwricwlwm ei addysgu, gweithgareddau allgyrsiol, a'r graddau y mae plant a phobl ifanc wedi cael eu heithrio o agweddau ar addysg neu ofal plant oherwydd anabledd neu niwrowahaniaeth.**

Trwy ein gwaith arolygu, rydym wedi nodi nifer o ffyrdd y caiff plant ag anableddau eu heithrio o agweddau ar addysg. Er enghraifft, mae ein hadroddiad thematig Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn canolbwyntio ar brofiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Yn rhy aml, nid yw disgyblion yn cael mynediad at addysg amser llawn. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn cael mynediad at gwricwlwm priodol.

Trwy ein gwaith, rydym hefyd wedi darganfod bod cyfyngiadau ar y plant hynny ag anableddau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel clybiau. Er enghraifft, o ganlyniad i gyfyngiadau ar gludiant tacsi ar ddiwedd y diwrnod ysgol, nid oedd disgyblion o ganolfan adnoddau arbenigol yn gallu cael mynediad at weithgareddau cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol.

Ar adegau, rydym wedi darganfod enghreifftiau o ddisgyblion ag anableddau yn cael eu heithrio o dripiau ysgol. Mae hyn wedi bod o ganlyniad i hyder staff o ran rheoli ymddygiadau sy'n herio, er enghraifft. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn elwa ar yr un profiadau addysgol cyfoethog â'u cyfoedion.

**Y graddau y mae teuluoedd a phlant yn teimlo eu bod wedi cael eu heffeithio gan wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn deillio o anabledd.**

Ychydig iawn o deuluoedd yn unig sydd wedi codi'r materion hyn gyda ni, sy'n ymwneud â gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, fel ei gilydd. Mae'r teuluoedd hyn yn dweud wrthym nad yw arweiniad presennol yn ddigon manwl, neu nad yw staff yn cael yr hyfforddiant priodol neu'n meddu ar y medrau a'r wybodaeth briodol i ddiwallu anghenion eu plentyn heb wahaniaethu yn ei erbyn.

**Effaith unrhyw ddiffyg mynediad neu fynediad cyfyngedig ar iechyd meddwl a lles a deilliannau addysgol plentyn neu berson ifanc.**

Ceir cysylltiad clir rhwng lles a deilliannau addysgol disgyblion, ac mae lles ac agweddau at ddysgu yn ffurfio rhan graidd o'n fframwaith arolygu. Rydym yn gweld effaith negyddol pandemig COVID-19 ar ddeilliannau addysgol a lles disgyblion o hyd, gan gynnwys ar gyfer disgyblion ag anableddau. Mae heriau eraill i ddisgyblion ag anabledd yn cynnwys presenoldeb, defnyddio arferion cyfyngol i reoli ymddygiad a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Yn aml, mae plant a phobl ifanc yn wynebu heriau yn gysylltiedig ag iechyd sy'n gallu effeithio ar eu presenoldeb. Gallai hyn gynnwys afiechydon cronig, problemau symudedd, neu gyflyrau sy'n golygu bod angen mynychu apwyntiadau meddygol rheolaidd. Maent hefyd yn profi gwahaniaethu, bwlio neu ynysigrwydd cymdeithasol, sy'n gallu eu gwneud yn amharod i fynychu'r ysgol neu gyfleusterau gofal plant. Gall defnyddio arferion cyfyngol i reoli ymddygiad fod yn niweidiol i addysg myfyrwyr anabl a'u lles cyffredinol. Er y gellir defnyddio'r arferion hyn i reoli ymddygiad heriol, gallant amharu ar hawliau ac urddas plentyn. Pan fyddant yn cael eu defnyddio'n ormodol, maent yn creu amgylchedd gelyniaethus neu ormesol, gan ei gwneud yn anodd i blant anabl ymgysylltu â gweithgareddau dysgu neu ofal plant.

O fewn ein hadroddiad thematig, 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru', canfuom fod llawer o ddisgyblion yn profi effaith negyddol pwysau gan gyfoedion ynghylch disgwyliadau am y ffordd y dylent edrych. Dywedodd disgyblion eu bod yn wynebu cywilyddio corfforol a bwlio os nad yw eu cyrff yn cydymffurfio â delwedd benodol o harddwch neu ffitrwydd. Er bod ysgolion yn cofnodi digwyddiadau yn ymwneud ag ymddygiad a bwlio yn gyffredinol, nid ydynt yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt gategoreiddio a dadansoddi achosion o fwlio ac aflonyddu rhwng cyfoedion yn ddigon da neu'n nodi tueddiadau. Mae hyn yn rhwystro ysgolion rhag cael darlun cywir o raddau gwahanol fathau o fwlio ac aflonyddu. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i werthuso'r effaith ar les grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft plant anabl.

**Y rhwystrau i ysgolion a darparwyr gofal plant wrth gynnal darpariaeth hygyrch**

Mae llawer o rwystrau yn y maes hwn, sy'n cael eu heffeithio i raddau helaeth gan gostau. Er enghraifft, mae amgylchedd yr ysgol yn aml yn achosi problemau i ysgolion a darparwyr gofal plant wrth gynnig darpariaeth addas. Gallai hyn gynnwys sicrhau hygyrchedd ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol, technoleg i gynorthwyo disgyblion sydd â nam ar y clyw neu sicrhau bod goleuadau ac acwsteg yn diwallu anghenion plant niwrowahanol.

Rhwystr arall yw sicrhau mynediad at ddysgu proffesiynol fel bod pob un o'r staff yn meddu ar y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol i ddiwallu anghenion pob un o'r plant yn dda. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn hyfedr yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu'n gallu adnabod a chefnogi anghenion plant niwrowahanol.

Mae mynediad at wasanaethau arbenigol yn aml yn rhwystr i ddarparwyr. Mae rhestrau aros hir i ddisgyblion gael eu hasesu ac wedyn eu cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion ar ôl asesiadau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys aros i weld

therapydd lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol neu seicolegydd addysg. Mae'r oedi hwn yn rhwystro ysgolion rhag defnyddio gwybodaeth gyfoes i ddiwallu anghenion plant ag anableddau. Mae hefyd yn achosi oedi i ddisgyblion wrth gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt mewn modd amserol.

Hefyd, mae deall a chymhwyso diwygio ADY yn parhau'n anghyson ac mae diffyg dealltwriaeth yn y maes hwn yn rhwystr rhag cynnig darpariaeth hygyrch.

**Pa mor dda yr ymgynghorir â phlant anabl neu niwrowahanol a'u teuluoedd, neu'u hysbysu, am y dewisiadau mewn addysg neu ofal plant sydd ar gael iddynt. Hefyd, p'un a yw rhieni plant anabl a niwrowahanol a'r plant eu hunain yn cael gwybodaeth a chymorth effeithiol gan awdurdodau lleol ac ysgolion.**

Mae cydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, a grwpiau eirioli yn dechrau creu amgylchedd mwy cynhwysol a gwybodus, gan sicrhau bod rhieni plant anabl a niwrowahanol yn derbyn gwybodaeth a chymorth priodol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi anghysondebau yn y wybodaeth sydd ar gael ar wefannau ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae hyn yn rhwystro plant, pobl ifanc a'u rhieni rhag gwneud dewisiadau cwbl wybodus am yr hyn sydd ar gael iddynt.

Hefyd, mae newidiadau i systemau pontio a chyllid o fewn addysg ôl-16 ar gyfer y dysgwyr hynny ag ADY yn peryglu cysondeb ac ansawdd y wybodaeth a ddarperir o ran addysg. Er enghraifft, yn ein hadroddiad thematig yn 2022, 'Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru', nodom nad yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto sut bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu cymorth cynllunio pontio ar gyfer pobl ifanc ag ADY.

**P'un a yw plant anabl a niwrowahanol a rhieni plant anabl a niwrowahanol yn cael yr un lefel o ddewis â phlant a rhieni eraill a pha faterion sy'n effeithio ar ddewis neu ysgol neu ofal plant.**

Yn gyffredinol, nid yw plant anabl a niwrowahanol a'u rhieni yn elwa ar yr un lefel o ddewis â'u cyfoedion.

Er enghraifft, pan fydd darpariaeth gyfyngedig o fewn ardal awdurdod lleol, maen nhw'n aml yn cael eu gadael heb unrhyw ddewis o gwbl ynglŷn â ble i fynd. Caiff y dewisiadau hyn eu cyfyngu hefyd gan gyfyngiadau cludiant a'r amser rhesymol y gall plentyn deithio i dderbyn addysg neu ofal plant bob dydd.

Mae hyn yn arbennig o nodedig wrth ystyried darpariaeth ôl-16 ac effaith diwygiadau ADY. Mae rheolau fel 'angen rhesymol' am addysg bellach yn peryglu cyfyngu nifer y plant ag anableddau sy'n gallu symud ymlaen i addysg bellach. Yn ychwanegol, mae mecanweithiau cyllid presennol yn golygu nad yw'r dysgwyr hyn yn gallu newid cyrsiau gyda'r un rhwyddineb â'u cyfoedion.

**Y graddau y ceir darpariaeth ddigonol ar gyfer plant â gwahanol fathau o anableddau.**

Mae amrywiaeth o ddarpariaeth ar gael ledled Cymru i ddiwallu anghenion plant â gwahanol fathau o anableddau. Mae hyn yn cynnwys ysgolion prif ffrwd, unedau cyfeirio disgyblion, canolfannau adnoddau arbenigol, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, colegau addysg bellach a cholegau arbenigol annibynnol.

Yn ein hadroddiad thematig, (“**Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol**”, 2023, nodom ddarpariaeth gyfyngedig ar gyfer y plant hynny ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy’n niwrowahanol ac yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mewn rhai achosion, mae angen i’r disgyblion hyn deithio i awdurdodau lleol eraill i gael mynediad at addysg i ddiwallu eu hanghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, mae cyfyngiadau ar asesiadau, adnoddau a staffio cymorth a gwasanaethau arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru.

**Enghreifftiau o arfer effeithiol**

**Dathlu amrywiaeth er mwyn cefnogi disgyblion gwybodus, cyfrifol a goddefgar | Estyn (llyw.cymru)**
Mae’r ysgol yn gymuned fywiog a chroesawgar, sy’n gwireddu’n llawn ei gweledigaeth i feithrin doniau pob un o’i disgyblion a’i staff. Mae ansawdd uchel iawn y gofal a’r cymorth a ddarperir gan staff yn meithrin gwerthoedd cryf ar y cyd o oddefgarwch, parch a chynwysoldeb yn llwyddiannus ymhlith pob aelod o ‘Deulu Cleidda’. Mae’r ethos hwn yn llywio agweddau cadarnhaol iawn disgyblion tuag at ddysgu yn uniongyrchol ac yn cefnogi eu datblygiad fel dinasyddion hyderus, galluog ac annibynnol. Mae dathlu a pharchu gwahaniaeth yn ganolog i’r ysgol. Mae’r ysgol wedi ceisio herio stereoteipiau o bob math ac mae wedi datblygu thema ‘amrywiaeth’ sy’n rhedeg o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6. Mae pob dosbarth yn defnyddio un o’r naw nodwedd warchodedig ac yn datblygu cyfleoedd dysgu arloesol ac amrywiol â materion, testunau cyfoethog a symbyliadau. Mae’r ysgol wedi datblygu cysylltiadau hynod effeithiol â Stonewall Cymru, Paralympiaid, sefydliadau anabledd a Cymru dros Heddwch, i enwi dim ond rhai, i gefnogi datblygiad personol disgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio ymwelwyr o’r gymuned a thu hwnt i ennyn diddordeb pob disgybl i fyfyrio ar eu gwerthoedd. Er enghraifft, fe wnaeth ymweliad ysbrydoledig gan Baralympiad herio a llywio safbwyntiau disgyblion am anabledd a chyflawniad.

**Mae dull strwythuredig o gyfathrebu yn helpu hyrwyddo amgylchedd dysgu cynhwysol | Estyn (llyw.cymru)**

O ganlyniad i ddull cydlynus y coleg o gyfathrebu cyflawn, mae pobl ifanc, sydd efallai wedi cael eu heithrio o’r mwyafrif helaeth o ryngweithio o’u cwmpas yn y gorffennol, yn gallu byw mewn amgylchedd cwbl gynhwysol lle gallant ddeall a chael eu deall.

**Addewid Caerdydd – Codi dyheadau, uchelgeisiau a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc | Estyn (llyw.cymru)**

Caiff prosiectau carlam, a arweinir gan y tîm craidd ac a gynhelir gydag ysgolion, eu nodi trwy wybodaeth am ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

(PYDd), plant sy’n derbyn gofal mewn addysg (LACE), disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), data ar gynnydd disgyblion a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Nod ardaloedd carlam Addewid Caerdydd yw cael y budd a’r gwerth mwyaf o bartneriaethau, a cheisio darparu ymagweddau cynaliadwy i ysgolion a chyflogwyr. Mae Blaengynllun ac Adroddiadau Blynyddol Addewid Caerdydd yn darparu tystiolaeth a mwy o fanylion am y blaenoriaethau craidd. Profiadau Gwaith yw ymagwedd Addewid Caerdydd at ddatblygu cynnig profiadau yn gysylltiedig â gyrfa a gwaith (CWRE) sy’n gweithio i ysgolion a chyflogwyr. Mae manteision y rhaglen yn cynnwys ymagwedd gydlynus a chydweithredol at brofiadau gwaith sy’n gwneud y defnydd gorau o adnoddau rhanddeiliaid. Mae hyn yn symud i ffwrdd oddi wrth weithgareddau CWRE ad hoc ac yn symud tuag at gyflenwi ystyrlon mewn cyd-destun. Mae’n ymagwedd a arweinir gan anghenion a ddatblygwyd mewn partneriaeth ac yn gweddu i ddemograffeg ysgolion. Mae’n cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion, ysgolion a rhieni / gofalwyr am lwybrau gyrfa a medrau rhanbarthol ac yn datblygu ymwybyddiaeth i rieni / gofalwyr ynghylch llwybrau addysg a gyrfa ar gyfer eu plant. Mae’r rhaglen yn herio rhwystrau yn gysylltiedig â symudedd cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol, anableddau a stereoteipiau rhywedd a hil.

**Mae technoleg yn chwarae rhan sylweddol mewn helpu disgyblion i gyflawni eu potensial | Estyn (llyw.cymru)**

Agorwyd Canolfan Technoleg Gynorthwyol yr ysgol ym Medi 2010. Mae’r Ganolfan Addysg Ymgynghorol yn disgrifio Technoleg Gynorthwyol fel ‘unrhyw offer neu system a ddefnyddir i gynyddu neu wella galluoedd swyddogaethol unigolion ag anableddau’. Llwyddodd pedwar aelod o staff i ennill cymwysterau mewn Technoleg Gynorthwyol wedi’u hachredu gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion.

Mae’r Ganolfan Technoleg Gynorthwyol yn gweithio ar draws parthau:

- cyfathrebu;
- cwricwlwm;
- llais y disgybl;
- annibyniaeth; a
- chymorth rhieni / teulu.